Y CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 13 GORFFENNAF 2021 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews - Maer
Y Cynghorydd J. Gale - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, J. Bevan, P. Bevan, C. Bezzina, C. Bishop, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, K. Dawson, N. Dix, K. Etheridge, M. Evans, C. Forehead, E. Forehead, J Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R. Gough, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, V. James, G. Johnston, G. Kirby, A. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J. Roberts, R. Saralis, G. Simmonds, J. Simmonds, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T.J. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151)

RECORDIO, FFILMIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Gwnaeth y Prif Weithredwr atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw. Serch hynny, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Esboniodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr C. Elsbury, C. Gordon, D. Hardacre, D. Harse, S. Kent, P. Leonard, G. Oliver, D. Price, M.E. Sargent a J. Scriven

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau a'r ymweliadau niferus y mae wedi ymgymryd â nhw ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys dyfynneb fer a gyflwynwyd ganddi mewn digwyddiad lle cadwyd pellter cymdeithasol i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog a digwyddiad lle cadwyd pellter cymdeithasol yng Nghaffi Lakeside View ar gyfer gosod diffibriliwr ym Mharc Cwm

Darran. Cyfeiriodd y Maer at ei thaith ddiweddar i Zip World a gododd dros £600 at Elusen y Maer. Cofnododd ei diolchiadau i bawb a gyfrannodd.

Nododd y Maer ei bod wedi cymeradwyo newid i drefn yr agenda yng nghyfarfod heno, ac y byddai Eitem 13 ar yr Agenda yn cael ei thrafod cyn Eitem 12.

3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3).

Ni chyflwynwyd unrhyw ddeisebau.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Ni chyflwynwyd unrhyw wobrau.

5. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

6. COFNODION – CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 13 MAI 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u bod yn cael eu llofnodi gan y Maer.

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021 (rhifau cofnodion 1-14)

7. COFNODION – CYFARFOD Y CYNGOR 1 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u bod yn cael eu llofnodi gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2021 (rhifau cofnodion 1-12)

8. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4).

Cwestiwn gan y Cynghorydd Kevin Etheridge i'r Cynghorydd James Pritchard, y Dirprwy Arweinydd.

Gofyn i'r Dirprwy Arweinydd ddiffinio, mewn perthynas â'i bortffolio, pa fesurau y bydd yn eu cyflwyno er mwyn ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid, cymunedau, busnesau, Cynghorwyr yr wrthblaid a masnachwyr yng nghanol ein holl drefi i sicrhau cysondeb ar draws y Fwrdeistref Sirol am nad yw Grwpiau Rheoli Canol Trefi wedi cyfarfod ers dwy flynedd?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd i'r Cynghorydd Kevin Etheridge.

Mae pob un ohonom yn gwybod bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar ganol trefi. Gwyddom hefyd ein bod wedi cefnogi ein busnesau yn ariannol drwy ddarparu gwerth miliynau o bunnau mewn grantiau busnes ac rydym wedi cynnig arweiniad a chyngor i fusnesau drwy ein tîm cymorth i fusnesau. Rydym wedi trafod y Grwpiau Rheoli Canol Trefi yn flaenorol yn y Siambr hon a'r ffaith bod eu cyfarfodydd, fel llond llaw o wasanaethu eraill, wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig er mwyn cynnig capasiti mewn rhannau eraill o'r sefydliad

i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol niferus rydym wedi'u cyflwyno mewn ymateb uniongyrchol i anghenion ein cymunedau drwy gydol y pandemig.

Mae'r cyn-Ddirprwy Arweinydd hefyd wedi gwneud ymrwymiad i'r Aelodau y caiff y Grwpiau Rheoli Canol Trefi hyn eu hailgyflwyno'n fuan wrth i ni ddechrau datblygu cynllun ar ôl COVID-19 ar gyfer Canol ein Trefi. Rwyf felly am ailadrodd y sefyllfa fel y'i nodwyd eisoes, sef y bydd y Grwpiau Rheoli Canol Trefi yn ailddechrau yn fuan a chaiff Aelodau'r Wardiau eu hysbysu maes o law o ran union amser y cyfarfodydd hyn, er mwyn iddynt allu cyfrannu atynt fel y gwelant orau.

Yn amlwg, ni allwn lywio dyfodol canol ein trefi ar ein pen ein hunain a byddwn am ymgysylltu â busnesau lleol a rhanddeiliaid ehangach. Rydym wrthi'n datblygu'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd a chânt eu hamlinellu'n llawn mewn adroddiad i'r Cabinet yn fuan, a fydd ar gael i'r holl Aelodau ddechrau mis Medi.

Rwy'n ymwybodol y bydd yr Arweinydd yn gwneud datganiad yn nes ymlaen yn y cyfarfod hwn a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am ein cynlluniau i ddatblygu Canol ein Trefi ar ôl COVID-19.

Rwyf wedi gweithio'n gyson gyda busnesau a masnachwyr gyda chymorth Aelod y Cabinet i ddarparu grantiau i'r busnesau hynny, yn enwedig drwy COVID-19, ac, fel Dirprwy Arweinydd, fy nyletswydd fydd cefnogi'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet gydag unrhyw weithgareddau ymgysylltu eraill â busnesau'r sector preifat. Rwy'n weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol ac rwyf wedi ymuno â rhai grwpiau lleol er mwyn cysylltu â thrigolion ar draws y sir. Fy rôl fel Dirprwy Arweinydd yw ymgysylltu â thrigolion yn y ffordd fwyaf adeiladol bosibl. Yn ystod y cyfnod byr rwyf wedi bod yn y swydd, rwyf wedi ymgysylltu â rhai o'n Cynghorwyr ynghylch cynigion yn fy mhortffolio ac rwy'n awyddus i geisio barn aelodau a etholwyd yn lleol am eu bod yn adnabod eu cymunedau. Mae gennyf bolisi drws agored, felly os na fyddaf yn cysylltu â chynghorwyr unigol yn gyntaf, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Diolch am eich cwestiwn Gynghorydd Etheridge.

9. DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd ei datganiad a rhoddodd wybod bod y Prif Weithredwr Christina Harrhy wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori ‘Prif Weithredwr y Flwyddyn’ yng Ngwobrau Cyflawniad mawreddog MJ 2021. Yn ogystal, roedd y Tîm Arlwyo ardderchog wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori'r ‘Gwasanaeth Cyngor Gorau’ hefyd. Gwnaeth yr Arweinydd longyfarch y rhai a enwebwyd am y cyflawniad ardderchog hwn a rhoddodd wybod i'r Cyngor y câi'r gwobrau eu cynnal ym mis Medi 2021 ac y byddai'n rhannu'r canlyniadau.

Yna rhoddodd yr Arweinydd eglurhad o ran cylch gwaith portffolio'r Dirprwy Arweinydd. Cyfeiriwyd yr Aelodau at ddiweddariad a anfonwyd yn ddiweddar a oedd yn amlinellu cwmpas portffolio'r Dirprwy Arweinydd a'r Cabinet ehangach. Disgrifiwyd portffolio'r Dirprwy Arweinydd fel Priffyrdd, Trafnidiaeth, Trefi ac Eiddo.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod rhaglen waith adfywio sylweddol ar ddod a oedd yn cynnwys cynlluniau i adfywio canol trefi, a rhoddwyd sicrwydd bod canol trefi yn hanfodol bwysig. Cydnabu'r Arweinydd fod y pandemig wedi effeithio'n fawr ar ganol trefi. Fodd bynnag, gan weithio gyda Masnachwyr, Aelodau a Phartneriaid Allweddol eraill, byddai'r awdurdod yn ystyried ail-lywio canol trefi fel rhan o'r Cynllun Adfer ar ôl COVID-19 er mwyn sicrhau eu bod yn lleoedd llewyrchus a chynaliadwy dros y tymor hwy. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r Cabinet yn cael adroddiad cynnydd yn erbyn y Cynllun Adfer ar ôl COVID-19 ar 1 Medi 2021 er mwyn ystyried y cynnydd a wnaed eisoes ynghyd â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, cydnabuwyd y byddai angen newid cyfarfodydd Canol Trefi wrth symud ymlaen mewn amgylchedd ar ôl COVID-19. Felly, byddai adroddiad ar wahân yn cael ei

gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad dros y misoedd nesaf.

Yna cadarnhaodd yr Arweinydd fod Adfywio Canol Trefi yn rhan o Bortffolio Adfywio'r Cynghorydd Eluned Stenner, sy'n gyfrifol am Adfywio a Datblygu Economaidd a bydd y model ar gyfer ymgysylltu ynghylch canol trefi yn flaenoriaeth allweddol y bydd y Cynghorydd Stenner yn arwain arni.

Cadarnhawyd mai Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Eiddo yw portffolio'r Dirprwy Arweinydd a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Cabinet yn gweithio ar draws y priod bortffolios er mwyn sicrhau y caiff blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol eu cyflawni, a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai'n cymryd peth amser i ddiffinio rôl newydd canol trefi, a'i bod yn bwysig bod y polisi cyfredol yn hyblyg er mwyn gallu ystyried newidiadau o'r fath. Bydd rôl canol trefi yn amlochrog, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer hybiau gweithio ystwyth, lleoliadau i fusnesau newydd, cartrefi fforddiadwy ac y gellir eu haddasu ynghyd â chyfleoedd manwerthu lleol. Cadarnhawyd bod ffioedd parcio ceir yn un elfen o'r polisi y bydd angen ei hailystyried law yn llaw â datblygu canol trefi ar gyfer y dyfodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor hwn wedi cynnig cyfleusterau parcio am ddim ers dechrau'r pandemig y llynedd a chyfeiriwyd at benderfyniad diweddar y Cabinet i ohirio ffioedd parcio ceir tan fis Medi pan gâi adroddiad pellach ei ystyried. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei ystyried ar 1 Medi ac, o ystyried y sefyllfa bresennol o ran COVID-19, roedd y Cabinet yn dymuno parhau gyda'r trefniadau parcio am ddim presennol am gyfnod pellach.

Hysbyswyd yr Aelodau fod yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch ffioedd parcio ceir yn y tymor hwy gael ei ystyried fel rhan annatod o adolygiad ehangach o ganol trefi, gan weithio'n agos gyda'r gymuned fusnes, fel rhan o'r Cynllun Adfer ar ôl COVID-19. Felly, mae'r Cabinet hefyd yn dymuno argymell yn ei gyfarfod ar 1 Medi, y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Parcio Ceir ailgynnull i ystyried y mater hwn yn fanwl a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Craffu cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet y flwyddyn nesaf. Byddai rôl y Grwpiau Rheoli Canol Trefi yn rhan hanfodol o'r broses casglu data hon.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod hyn yn ymwneud â ffioedd parcio ceir yng nghanol trefi yn unig. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod y Cabinet eisoes wedi cytuno y byddai ffioedd parcio ceir yn cael eu hailgyflwyno yn y cyrchfan twristiaeth strategol, Rhodfa Coedwig Cwmcarn, ond y byddai'r trefniadau parcio am ddim mewn parciau gwledig yn parhau.

Achubodd yr Arweinydd ar y cyfle hwn i roi sicrwydd i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr y byddai'r Cyngor hwn yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gefnogi'r economi leol yn dilyn un o'r cyfnodau anoddaf o fewn cof.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

10. HYSBYSIAD O GYNNIG – MEINCIAU COFFA

Ystyriwyd yr hysbysiad o gynnig gan y Cynghorwyr J. Roberts ac C. Elsbury ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr A. Farina-Childs, B. Owen, C. Mann, a T. Parry.

Nodwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2021 lle gwnaeth yr Aelodau, yn dilyn pleidlais drwy fwyafrif, argymell i'r Cyngor na ddylid cefnogi'r cynnig.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Roberts yr hysbysiad o gynnig a rhoddodd wybodaeth gefndir ynglŷn â pham roedd yn cyflwyno'r cynnig ar yr adeg hon.

Rhoddodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fanylion am drafodaethau'r Pwyllgor Craffu a chadarnhawyd y rheswm pam na wnaeth Aelodau'r pwyllgor gefnogi'r cynnig.

Ceisiwyd eglurhad o ran a ellid cyflwyno achos dros ddull mwy hyblyg o osod meinciau er mwyn i deuluoedd galarus allu eu gosod, ar eu traul eu hunain, yn agosach at feddi eu hanwyliaid. Roedd yr Aelod yn teimlo bod y gwaharddiad cyffredinol ar ddarpariaeth ar hyn o bryd yn annheg â theuluoedd. Nododd Swyddogion fod y polisi dan sylw wedi cael ei roi ar waith yn dilyn cyfnod ymgynghori helaeth, gan gynnwys sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a gwblhaodd ymchwiliad cynhwysfawr i'r gwasanaeth. O ran lleoliad meinciau, nodwyd bod angen ystyried ffactorau gweithredol fel y gellid gwneud gwaith mewn mynwentydd yn ddiogel, ac roedd y dull polisi hwn yn sicrhau hyn. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oedd gwaharddiad cyffredinol ar ddarparu meinciau; roedd meinciau'n cael eu gosod o hyd, ond roedd rhaid ystyried eu lleoliad yn weithredol er mwyn sicrhau nad oedd mynwentydd yn cael eu gorlenwi ac y gellid gwneud gwaith ynddynt yn ddiogel o hyd gan darfu cyn lleied â phosibl. Gallai teuluoedd osod plac coffa ar fainc sydd eisoes yn bodoli neu blannu coeden er cof am eu hanwyliaid pe baent yn dymuno.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, cafwyd 21 o bleidleisiau o blaid, 38 yn erbyn ac 1 ymataliad, a datganwyd bod y Cynnig wedi colli.

PENDERFYNWYD na ddylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig.

11. HYSBYSIAD O GYNNIG – YMGYRCH ‘PLEDGE TO BE SEEN’

Ystyriwyd yr hysbysiad o gynnig gan y Cynghorydd P. Marsden a nodwyd bod y Maer wedi caniatáu i'r hysbysiad gael ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor, heb ei drafod mewn pwyllgor trosolwg a chraffu yn gyntaf er mwyn cyflymu'r broses. Cefnogwyd y cynnig gan y Cynghorwyr E. Stenner, S. Cook, N. George, C. Gordon, R. Whiting ac A. Whitcombe.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Marsden yr hysbysiad o gynnig a'r rhesymau dros ei gyflwyno. Nodwyd y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymuno â Llywodraeth Cymru drwy ymrwymo i'r Ymgyrch ‘Pledge to be Seen’ a fyddai'n sicrhau bod pobl sydd â gwahaniaeth gweladwy fel craith, marc neu gyflwr sy'n effeithio ar eu hymddangosiad, yn cael eu gweld a'u clywed ym mhob rhan o ddiwylliant prif ffrwd ac yn y gweithle.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, cafwyd 61 o bleidleisiau o blaid, a chytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig.

13. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Gyda chymeradwyaeth y Maer, trafodwyd yr eitem hon yn gynharach yn yr agenda.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y datganiad Cyngor Amrywiol i gefnogi rhaglen Amrywiaeth

mewn Democratiaeth CLlLC. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer gweithgarwch cyn yr etholiadau yn 2022.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod CLlLC wedi penderfynu ceisio hybu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn cynghorau ledled Cymru cyn yr etholiadau ym mis Mai 2022, gyda'r nod uchelgeisiol o sicrhau bod siambrau cynghorau ar draws y wlad yn cynrychioli eu cymunedau yn well. Byddai'r argymhellion yn yr adroddiad yn gwneud ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth, gan ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb. Ystyrir gwasgaru amseroedd cyfarfodydd y Cyngor a chytuno ar gyfnodau lle ceir toriadau er mwyn cefnogi Cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau eraill. Byddai cynllun gweithredu'n cael ei lunio ar gyfer gweithgarwch cyn yr etholiadau lleol hefyd.

Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw lliniaru rhwystrau er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl allu mynychu cyfarfodydd. Nododd yr Aelodau eu bod yn cefnogi'r egwyddor a amlinellir yn yr adroddiad a thrafodwyd yr angen i ystyried yr effaith economaidd y gallai sefyll etholiad ei chael hefyd. Cyfeiriwyd at y taliad parasiwt a gynigir i Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol a'r ffaith y gallai cyflwyno taliad o'r fath ar lefel Bwrdeistref Sirol fod o gymorth. Dadleuodd yr aelodau am oblygiadau ariannol sefyll etholiad a chroesawyd y syniad o gynnwys Cynghorwyr yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ond teimlwyd bod angen rhoi mwy o fesurau ar waith er mwyn gwneud rôl Cynghorydd yn fwy deniadol i'r gymuned yn ehangach.

Hysbyswyd yr Aelodau fod CLlLC eisoes wedi trafod beth y gellid ei wneud i gynorthwyo'r rhai sydd â chyfrifoldeb gofalu, neu'r rhai sy'n rhoi'r gorau i'w swydd er mwyn gwasanaethu eu cymunedau. Cytunodd yr Aelodau y byddai angen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ystyried y materion hyn fel rhan o'i adolygiad nesaf.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, cafwyd 60 o bleidleisiau o blaid, a chytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid gwneud y canlynol: -

1. Nodi'r cynnydd a'r camau gweithredu a nodir yn adroddiad CLlLC i gynghorau sydd yn Atodiad 1.

2. Cymeradwyo'r datganiad Cyngor Amrywiol er mwyn datgan yn ffurfiol y bydd y Cyngor yn gwneud ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth, dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, ystyried gwasgaru amseroedd cyfarfodydd y Cyngor a chytuno ar gyfnodau lle ceir toriadau er mwyn cefnogi cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau eraill, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer gweithgarwch cyn yr etholiadau lleol yn 2022.

3. Cytuno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor a llunio cynllun gweithredu, gan roi'r wybodaeth am ddiweddaraf am gynnydd i'r Cyngor.

12. ALLDRO DROS DRO CYLLIDEB REFENIW 2020-21

Gyda chymeradwyaeth y Maer, trafodwyd yr eitem hon yn nes ymlaen yn yr agenda.

Ystyriwyd yr adroddiad a gafodd ei ystyried yn flaenorol gan y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2021 a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y cytunwyd yn unfrydol ar yr argymhellion ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.6 yn y cyfarfod hwnnw.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o berfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ac roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer defnyddio balansau'r Gronfa Gyffredinol sy'n weddill a defnyddio cronfeydd wrth gefn gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o ddibenion untro.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi mynd i gostau ychwanegol sylweddol o ganlyniad i'r pandemig a'i fod wedi colli incwm mewn sawl maes allweddol hefyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi swm sylweddol o gyllid i Awdurdodau Lleol er mwyn gwrthbwyso costau ychwanegol ac incwm a gollwyd drwy'r Gronfa Galedi ar gyfer COVID-19. Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfanswm o £24.2m yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad A o'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r alldro dros dro ac yn dangos tanwariant net o £38.517m ar draws yr holl wasanaethau. Nodwyd bod tanwariant o £10.070m ar gyfer ysgolion ac, o ganlyniad, mae balansau ysgolion wedi cynyddu o £1.3m i £11.3m. Roedd y tanwariant hwn yn fwy na'r hyn a ragamcanwyd am fod y Cyngor wedi cael cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol. Cafwyd grant o tua £5m a chefnogodd hyn wariant roedd yr ysgolion wedi rhagweld y byddent yn gorfod ei ariannu eu hunain yn wreiddiol.

Nodwyd bod tanwariant o £10.018m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a bod y rhan fwyaf o hyn o ganlyniad i COVID-19. Mae'r tanwariant hwn wedi cael ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2021/22 er mwyn helpu i gwblhau Rhaglen SATC.

Nodwyd hefyd fod lefel y tanwariant ar Gyllidebau Gwasanaeth/Cyfarwyddiaeth a Chyllid Amrywiol yn llawer uwch na blynyddoedd blaenorol a bod hyn yn adlewyrchu effaith ddigynsail COVID-19 ar newidiadau mewn arferion gwaith, ynghyd â graddfa'r cymorth ariannol untro a ddarparwyd.

Esboniwyd bod y cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol i gynnal cadernid ariannol yn ystod y pandemig, ond bod cymorth ariannol pellach gan y Gronfa Galedi ond wedi'i gadarnhau tan ddiwedd mis Medi 2021 ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyflwyno risg ariannol sylweddol a bydd angen cadw llygad barcud ar y sefyllfa drwy gydol blwyddyn ariannol 2021/22.

Mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer y tymor canolig yn heriol o hyd a gwnaeth Aelod y Cabinet atgoffa'r Aelodau fod yr Adroddiad ar Gyllideb 2021/22 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 24 Chwefror 2021 yn cynnwys Cynllun Ariannol wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Tymor Canolig gan ddangos y posibilrwydd y byddai angen arbed £21.1m ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2022/23 a 2025/26. Fodd bynnag, roedd y tanwariant yn 2020/21 yn cynnig cyfle i wneud buddsoddiadau untro sylweddol er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol, cefnogi cam adfer y pandemig, ac ymgymryd â'r gwaith parhaus o gyflwyno'r rhaglen drawsnewid.

Nododd yr Aelodau yr argymhellion a gymeradwywyd gan y Cabinet ac mai mater i'r Cyngor yw penderfyniadau mewn perthynas â Chyllid Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol.

Croesawodd yr Aelodau y cyfleoedd buddsoddi a amlinellir yn yr adroddiad a chyfeiriwyd yn benodol at y cynigion ar gyfer Cysylltwyr Cymunedol, Glanhau a Glasu a Phrentisiaethau.

Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â thrawsnewid digidol a'r hyn a fyddai'n wahanol oherwydd y buddsoddiad arfaethedig. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai adnoddau TG yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol. Cyfeiriwyd at y newid technolegol enfawr a welwyd yn sgil y pandemig, er enghraifft, ychwanegwyd 10,000 o ddyfeisiau newydd at systemau presennol. Byddai'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu mewn modd mwy effeithiol a byddai'n arbennig o bwysig i ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wrth i'r rhaglen Technoleg Addysg symud i'w cham buddsoddi nesaf. Byddai galw sylweddol ar y Tîm Cymorth TGCh yn ystod y cyfnod hwn.

Yna cyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu Lleol a'r arian a fuddsoddwyd yn y broses o'i gynhyrchu a ph'un a oedd hyn yn cynnig gwerth am arian. Cadarnhaodd Swyddogion nifer y staff sydd yn Nhîm y Cynllun Datblygu Lleol a'r ffaith bod cynhyrchu'r Cynllun yn ofyniad deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnwyd a yw'r sefyllfa o ran tanwario yn un gyffredin mewn Awdurdodau Lleol eraill a dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod Cymdeithas Trysoryddion Cymru wrthi'n crynhoi'r sefyllfa yn holl Awdurdodau Lleol Cymru ar hyn o bryd ac y câi'r wybodaeth hon ei rhannu maes o law. Fodd bynnag, yn dilyn sgyrsiau â chydweithwyr ar draws Rhanbarth Gwent, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod achosion o danwario mwy na'r arfer yn cael eu cofnodi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cael ei rheoli'n dda er gwaethaf yr heriau sylweddol a gyflwynwyd gan y pandemig. Fodd bynnag, roedd angen bod yn bwyllog o hyd gan y byddai angen gwneud cryn arbedion yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at y Gronfa Galedi, y Strategaeth Drawsnewid a'r cyllid ychwanegol ar gyfer swyddi cyfnod penodol a nodir yn yr adroddiad a cheisiwyd eglurhad ynghylch rôl Cydgysylltwyr Cymunedol. Cadarnhaodd Swyddogion nad oedd cynlluniau i'r Gronfa Galedi barhau ar ôl mis Medi 2021, er bod sylwadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth. Byddai'r swyddi cyfnod penodol ychwanegol yn cael eu defnyddio i ddarparu cymorth TGCh ychwanegol i ysgolion, a byddai Cydgysylltwyr Cymunedol yn darparu cysylltiadau gwerthfawr rhwng trigolion a rhanddeiliaid allweddol. Byddai natur cyfnod penodol y swyddi hyn yn ffordd o sefydlu prawf cysyniad ar gyfer y fenter.

Dadleuodd yr Aelodau ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn a nodwyd y caiff adroddiadau ar y cronfeydd wrth gefn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn rheolaidd lle gallai'r Aelodau archwilio eu lefelau a'r ffordd y cânt eu defnyddio yn fanwl.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD y dylid gwneud y canlynol: -

1. Cymeradwyo argymhelliad y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 i gadw balans y Gronfa Gyffredinol ar £11.047m, gan gynrychioli 3% o gyllideb refeniw net 2021/22.

2. Cymeradwyo'r defnydd arfaethedig o falansau'r Gronfa Gyffredinol sy'n weddill, sef cyfanswm o £9.215m, fel y nodir yn Adran 5.9 o'r adroddiad atodedig.

14. DILEU'R GWASANAETH IEUENCTID O'R BRYDLES A'R DEFNYDD O SEFYDLIAD CRYMLYN

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd wedi cael ei ystyried fel eitem frys gan y Cabinet ar 9 Mehefin 2021.

Mae'r cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw benderfyniad a wneir ar frys gael ei gofnodi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros natur frys y mater. Felly, cyflwynir yr adroddiad gerbron y Cyngor er gwybodaeth i'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau y rheswm dros natur frys y mater a'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet.

PENDERFYNWYD y dylid nodi'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30.

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5 Hydref 2021, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

_____

Y MAER